# SL(6)420 – Rheoliadau Ychwanegion Bwyd Anifeiliaid (Awdurdodiadau) (Cymru) 2023

## Cefndir a diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn awdurdodi, o ran Cymru, roi tri ar ddeg o ychwanegion bwyd anifeiliaid ar y farchnad.

Mae'r awdurdodiadau ar gyfer y canlynol:

- Ychwanegion maethol sy'n darparu microfaethynnau hanfodol i ddeietau anifeiliaid, fel asidau amino;
- Ychwanegion technolegol, fel ychwanegion silwair (sylweddau gan gynnwys ensymau neu ficro-organebau y bwriedir eu cynnwys mewn bwyd anifeiliaid i wella cynhyrchiant silwair);
- Ychwanegion sootechnegol, fel sylweddau sy'n gwella treuliadwyedd sydd, o'u bwydo i anifeiliaid, yn cynyddu treuliadwyedd deiet drwy eu rhoi mewn deunyddiau bwyd anifeiliaid targed a sylweddau sy'n dda i'r amgylchedd.

Maent hefyd yn darparu trefniadau pontio yn dilyn newid cod adnabod ar gyfer un ychwanegyn bwyd anifeiliaid a awdurdodwyd yn flaenorol i ganiatáu disbyddu stociau cyfredol, ac yn dirymu awdurdodiadau sydd wedi dod i ben.

## Y weithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Rheoliadau o fewn 40 niwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fo'r Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) mewn cyfnod o doriad am fwy na phedwar diwrnod) i'r dyddiad y'u gosodwyd gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodwyd y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn rheoliad 2(3), diffinnir "*Rheoliad 1831/2003*" at ddibenion rheoliad 2 yn unig, gan fod rheoliad 2(3) yn dechrau â'r geiriau "*Yn y rheoliad hwn*". Fodd bynnag, defnyddir "*Rheoliad 1831/2003*" hefyd yn rheoliad 3(2) ac, at ddiben y rheoliad hwnnw, nid yw wedi'i ddiffinio ar hyn o bryd.

**2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol**

Yn Atodlenni 3 a 4 i'r Rheoliadau hyn, yn nodyn (2) o'r tabl, cyfeirir at gyhoeddiad Sefydliad Safonau Prydeinig sy'n cynorthwyo'r darllenydd i ddeall y dulliau dadansoddi y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni hynny mewn perthynas â phob ychwanegyn penodedig.

Yn y testun Saesneg, cyfeirir at y cyhoeddiad fel *"Animal feeding stuffs: Methods of sampling and analysis. Detection and enumeration of* ***Pediococcus spp.*** *used as feed additive"* (pwyslais wedi'i ychwanegu). Fodd bynnag, yn y testun Cymraeg, defnyddir "*Bacillus spp."* yn hytrach na "*Pediococcus spp."*

Mae angen esboniad am yr anghysondeb hwn rhwng y testunau Cymraeg a Saesneg gan ei bod yn ymddangos eu bod yn cyfeirio at gyhoeddiadau o dan deitlau gwahanol.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn cysylltiad â'r offeryn hwn.

**3. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd**

Ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn egluro fel a ganlyn:

> *"Mae'r ASB* [Asiantaeth Safonau Bwyd] *wedi asesu'r effeithiau a fyddai'n deillio o awdurdodi'r ychwanegion bwyd anifeiliaid hyn. Roedd yr effeithiau a ystyriwyd yn cynnwys y rheiny a gafodd eu nodi amlaf fel effeithiau posib wrth gyflwyno neu ddiwygio cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid (er enghraifft, gwaith gweithredu awdurdodau lleol, iechyd, yr amgylchedd, twf, arloesi, masnach, cystadleuaeth, buddiannau defnyddwyr, a busnesau bach a micro). Ni wnaeth yr ASB nodi unrhyw effeithiau arwyddocaol, felly ni luniwyd asesiad effaith rheoleiddiol llawn. Mae hyn yn unol â'r polisi a nodir yng nghod ymarfer gweinidogion Cymru ar gyfer cynnal asesiadau effaith rheoleiddiol ar gyfer is-ddeddfwriaeth.*
>
> *Yn gyffredinol, nododd yr ASB y dylai awdurdodi'r cynhyrchion hyn arwain at fwy o gystadleuaeth yn y farchnad, gan gefnogi twf ac arloesi yn y sector."*

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Mae angen ymateb gan Lywodraeth Cymru ac eithrio mewn perthynas â phwynt 3.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**12 Rhagfyr 2023**